WELSH LIBERAL DEMOCRATS
DEMOCRATIAID RHYDDFRYDOL CYMRU
www.demrhydcymru.org.uk

FFOCWS

Hydref, 2010.

Democratiaid Rhyddfrydol Sir y Fflint

Ar gyfer Ward De Yr Wyddgrug
Golygwyd gan y
Cynghorydd Sir Robin Guest – 757408

Cyhoeddwyd a hyrwyddwyd gan Robin Guest [Democratiaid Rhyddfrydol Cymru], 36, Ffordd Pentre, Yr Wyddgrug, CH7 1UY. Argraffwyd gan FLD Press, Parc Busnes Yr Wyddgrug CH7 1XP.

ROBIN GUEST -YN GWEITHREDU GYDOL Y FLWYDDYN!!

TYRBIN GWYNT *WEST COAST ENERGY*

Erbyn ichi ddarllen hwn, rwy'n disgwyl y bydd cais cynllunio wedi ei gyflwyno i adeiladu tyrbin gwynt. Bydd y tyrbin arfaethedig sydd i'w godi ar dir *West Coast Energy* ar y Parc Busnes ym Maes Gwern, yn 25 metr o uchder ac yn darparu ynni ar gyfer swyddfeydd y cwmni. Bydd manylion ynghylch y cais ar gael ar wefan y Cyngor neu o fynd i swyddfeydd yr Adran Gynllunio. Os oes gennych farn o gwbl ar y tyrbin arfaethedig, a fyddech gystal â gadael imi wybod?

YSBWRIEL

Mae pawb yn ymwybodol o'r angen i leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi – cosbir pob Cyngor yn ôl £48 am bob tunnell a yrrir iddynt. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi leihau eich gwastraff bwyd, ac ailgylchu eich papur, cardbord, gwydr, poteli plastig a gwastraff gardd drwy ddefnyddio'r cynllun casglu wrth ymyl y ffordd. Fodd bynnag, dim ond 14% o'r cyfanswm yw gwastraff domestig. Mae'n rhaid i fusnesau dalu i gael gwared â gwastraff, ond rwyf am weld targedau ar gyfer ailgylchu gwastraff busnes hefyd - mae cost danfon gwastraff i safleoedd tirlenwi yn cael ei basio ymlaen at y cwsmer.

A chi a fi yw'r rheiny!

FLINTSULATE

Mae'n **bosib** bod eich tŷ yn gymwys ar gyfer inswleiddio atig neu wal geudod, a hynny am bris gostyngol drwy'r Cyngor, a chyda chefnogaeth Cynllun *Flintsulate.*

Cysylltwch â Chanolfan Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru ar 0800 9540658 - neu ewch draw i'w swyddfa ar Ffordd yr Iarll.

CŴN BUDUR

Ers mis Rhagfyr mae'n anghyfreithlon i gŵn faeddu yn Sir y Fflint. Mae'n drosedd i berchennog ci adael i'w gi faeddu'r pafin a pheidio â'i lanhau. Gall yr Heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol a Swyddogion Gorfodi y Cyngor gymryd camau yn erbyn y bobl hyn. A fyddech gystal â hysbysu dogfouling@flintshire.gov.uk neu ffonio 01352 703366 ynghylch unrhyw ardaloedd sy'n broblem. Cysylltwch â mi os ydych o'r farn bod angen gosod bin baw cŵn mewn ardal benodol.

PARC Y SANTES FAIR

Ddeuddeg mis yn ôl, cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y cae ar Ffordd Rhuthun gyferbyn â Llys Ambrose. Sefydlodd rai o'r trigolion Grŵp Gweithredu dan arweiniad Adele Hughes i wrthwynebu'r cais, ac maent wedi cwrdd sawl gwaith. Rydw i wedi mynychu pob un o'u cyfarfodydd. Ysgrifennodd lawer ohonoch gyda'ch gwrthwynebiadau, ac wedi i mi ac Adele gyflwyno'n hachos i bwyllgor Cynllunio'r Cyngor, pleidleisiodd y Cyngor yn ôl ym mis Mehefin i **WRTHOD** y cais ar sail dwysedd a'r mynediad arfaethedig drwy Lys Ambrose. Rwy'n disgwyl y bydd y ceisydd yn apelio i'r Cynulliad yn erbyn y penderfyniad i wrthod, ond mae hi'n bosib y bydd cais diwygiedig yn cael ei gyflwyno. Byddwn yn eich hysbysu o unrhyw newyddion.

Robin Guest - yn gweithio dros eich cymuned gydol y flwyddyn

MYNNWCH BLEIDLAIS – DEFNYDDIWCH EICH PLEIDLAIS!

Mae Adran Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor wrthi'n cynhyrchu Cofrestr o Etholwyr, sef rhestr o'r holl drigolion sy'n gymwys i bleidleisio. A wnewch chi ymateb, os gwelwch yn dda, i'r ffurflen a yrrwyd i bob tŷ i gadarnhau manylion yr oedolion sy'n gymwys i bleidleisio. Os na wnewch chi gofrestru, chewch chi ddim pleidleisio ar y Refferendwm ar Ddatganoli, y Refferendwm ar Systemau Pleidleisio ac Etholiadau Cynulliad Cymru , nag unrhyw beth arall! Hefyd, dyma beth mae'r Cynulliad yn ei ddefnyddio i gyfrifo'r grant bloc ar gyfer y Cyngor – sy'n ariannu ysgolion, ffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol – beth bynnag mae'r cyngor yn ei wneud.

Peidiwch â Cholli eich Pleidlais! Peidiwch â cholli arian!

LLWYDDIANT YSGOLION

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Yr Alun ac Ysgol Maes Garmon ar ganlyniadau Lefela a TGAU rhagorol. Diolchaf i'r Prifathrawon Ashley Jones a Huw Alun Roberts a staff y ddwy ysgol am eu gwaith caled a'u cefnogaeth. Mae hyn yn dilyn arolwg Estyn da iawn o'r Alun yn ystod tymor y gwanwyn. Mae Llywodraethwyr yr ysgolion yn haeddu cydnabyddiaeth am eu hamser a'u hymroddiad, ac yn fwy na dim, diolch i rieni a theuluoedd am gefnogi'r disgyblion yn eu llwyddiannau.

GWASANAETH BWS AR GYFER BRYN COCH UCHAF

Oes galw am wasanaeth bws i gysylltu Bryn Coch Uchaf â chanol y dref?
Rhowch wybod imi.

CASGLU GWASTRAFF BWYD

Mae ward De Yr Wyddgrug wedi bod yn rhan o gynllun peilot ar gyfer casglu gwastraff bwyd. Mae gen i ddiddordeb clywed eich barn ynghylch hyn. Os yw'n well gennych chi gompostio'ch gwastraff bwyd, gallwch brynu bin compost drwy'r Cyngor am £12 neu £15 (meintiau gwahanol) – ffoniwch 703350 am fanylion.

GORYRRU AR FFORDD RHUTHUN

Mae hi bellach yn 2 flynedd ers i'r arwydd rhyngweithiol gael ei osod ar ymyl y parth 30 mya ar Ffordd Rhuthun. A welwyd unrhyw wahaniaeth, ac a yw hi'n werth gosod un ar y ffordd i **fyny** Ffordd Rhuthun? Beth yw eich barn chi?

EICH FFÔN CHI YDI O!

Mae'r *Telephone Preference Service (TPS)* yn wasanaeth rhad ac am ddim. Dyma'r gofrestr swyddogol ganolog ar gyfer cofnodi'ch dymuniad i beidio â derbyn galwadau dieisiau neu alwadau marchnata. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod pob mudiad (gan gynnwys elusennau, mudiadau gwirfoddol a phleidiau gwleidyddol) yn atal rhag gwneud galwadau o'r fath i rifau sydd wedi cofrestru gyda'r TPS, heblaw eich bod yn cytuno i dderbyn eu galwad. Mae manylion cyswllt y TPS isod, os hoffech wybod mwy:

Telephone Preference Service,
3rd Floor, DMA House 70 Margaret Street,
London, W1W 8SS.
www.tpsonline.org.uk
Llinell Gofrestru TPS: 0845 070 0707
Ffôn: 0845 703 4599
e-bost: tps@dma.org.uk

Cynghorydd De Yr Wyddgrug Robin Guest

Yma i helpu

Manylion cyswllt:
Cyng. Robin Guest
36 Ffordd Pentre,
Yr Wyddgrug,
CH7 1UY. Ffôn: 01352 757408
E- bost tobyreggie@hotmail.com